Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Newid mewn comisiynu – dyddiad ich dyddiaduron

Mae prosesau comisiynu gwasanaethau cyhoeddus yn newid. Wrth i gyrff cyhoeddus fynd ati i wneud arbedion effeithlonrwydd yn eu prosesau, a chydweithio mwy, mae mudiadau'r trydydd sector yn edrych ar oblygiadau contractau gwasanaethau cyhoeddus generig, rhanbarthol neu fwy.

Mewn rhai achosion, bydd symud at gomisiynu ar y cyd yn golygu tendro ar y cyd i ddarparwyr gwasanaeth llai. Awgrymwyd bod gweithio mewn consortiwm yn ffordd ddefnyddiol i fudiadau llai ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus – ond sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol?

Mae mwy a mwy o drafod ynghylch egwyddorion cyd-gynhyrchu hefyd: sut mae defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau yn gweithio mewn partneriaeth â phobl broffesiynol, i ail-ddylunio gwasanaethau er mwyn iddynt fod yn fwy ymatebol i anghenion – neu hyd yn oed i ail-lunio'r berthynas rhwng cyrff cyhoeddus, dinasyddion a chymunedau.

Mae'r trydydd sector yn cyflawni nifer o swyddogaethau pwysig, sy'n gallu cyfrannu at y gwaith o gomisiynu gwasanaethau cyhoeddus: mae'n gweithredu fel hyrwyddwr i ddinasyddion; fel arbenigwr mewn meysydd gwasanaeth allweddol; ac wrth gwrs, fel darparwr gwasanaeth. Ceir pwyntiau allweddol yn y cylch comisiynu sy'n gallu cefnogi neu amharu ar allu mudiadau trydydd sector i gyfrannu'n effeithiol at y broses.

Bydd y pynciau hyn yn sail i Ddigwyddiadau Polisi Rhanbarthol mis Hydref. Yn y bore, edrychir ar y newid yng nghyd-destun comisiynu, a sut gall y trydydd sector gymryd rhan. Yn y prynhawn, bydd y pwyslais ar gaffael: problemau a phrosesau tendro ar gyfer contractau gwasanaethau cyhoeddus, a sut gallai mudiadau trydydd sector gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau.

Dyma'r dyddiadau a'r lleoliadau ar gyfer y Digwyddiadau Polisi Rhanbarthol nesaf:

- Dydd Mawrth 4 Hydref – Neuadd Morfa, y Rhyl
- Dydd Mercher 5 Hydref – Y Pafiliwn, Llandrindod
- Dydd Mercher 12 Hydref – Gwesty Brenhinol yr Ivy Bush, Caerfyrddin
- Dydd Iau 13 Hydref – Canolfan Christchurch, Casnewydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gareth Coles drwy anfon neges e-bost at gcoles@wcva.org.uk neu ffonio 02920 431 771.

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar fframwaith newydd i reoli ei ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog. Byddai Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) yn cynnwys darpariaethau ynghylch defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ystod trafodion y Cynulliad Cenedlaethol, ac wrth gyflawni swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad.

Bydd y Bil yn gosod dyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i gyflwyno cynllun gwasanaethau dwyieithog fydd yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gydymffurfio â'i ddyletswydd, fel y'i hamlinellwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Roedd y gwasanaethau hynny wedi'u modelu'n flaenorol ar gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sydd bellach wedi'i disodli gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn unol ag egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol, nid yw'r Cynulliad na'r Comisiwn yn ddarostyngedig i drefniadau'r Mesur, felly penderfynodd Comisiwn y Cynulliad i ymchwilio i fframwaith deddfwriaethol newydd ynghylch ei wasanaethau dwyieithog. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau yw 14 Hydref 2011. Am ragor o wybodaeth ewch I http://tinyurl.com/3kl3lst.

Cymerwch ran yn Wythnos Ymddiriedolwyr

Cynhelir yr Wythnos Ymddiriedolwyr flynyddol am yr ail dro rhwng 31 Hydref – 6 Tachwedd 2011, yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau sy'n dangos gwaith ymddiriedolwyr ac yn tynnu sylw at gyfleoedd i bobl gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth.

Mae WCVA yn falch o weithio ochr yn ochr â'r Comisiwn Elusennau fel un o gefnogwyr swyddogol Wythnos Ymddiriedolwyr 2011.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am beth sy'n digwydd yn ystod yr wythnos drwy glicio http://bit.ly/plmAB5 i gael mynediad i'r wefan swyddogol.

Cynhelir Cynhadledd Ymddiriedolwyr WCVA 2011 yn fuan cyn Wythnos Ymddiriedolwyr, ar 26 Hydref yn Llandudno. Bydd rhagor o wybodaeth yn dod yn fuan, ond gallwch gofrestru eich diddordeb gwreiddiol drwy e-bostio eventsadmin@wcva.org.uk

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.